**NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA GAN IEUENCTID CYMRU I IEUENCTID Y BYD 2015**

Hwyl fawr i wleidyddion byddar, i landlordiaid barrus, i bocedi gwag, hwyl fawr i hen fyd blinedig, awn tua yfory ein gorwelion. Yfory'r pocedi llawn, yfory ein darn o dir, yfory ein deddfu.

Ond heddiw ar ein Mimosa, a dewrder yn ein cam, mae taith hir o'n blaenau, a sawl her i'n hwynebu. Wyneb yn wyneb ag afiechyd, yn llygad y storm, yn glust i'r gofidiau, yng ngenau'r moroedd.

Wrth wynebu ein hofnau a newidiwn ein hwyneb ni, a gweld dieithryn yn nrych y tir newydd? O roi ein traed ar y tywod ac anadlu'r awyr newydd, a gofiwn ein gweledigaeth yn wyneb anobaith? A welwn frodorion fel y gwelwn ein hunain? A gynigiwn ysgwyd llond llaw o obaith? A hawliwn ein rhyddid heb ddwyn rhyddid eraill? A godwn dai sy'n cynnig to i'r di-gartref? A rannwn ni'r ffrwythau o'n tiroedd ffrwythlon? A allwn gyd fyw a pharchu'n gilydd?

A Chymru ein doeau yn ein calonnau, dychmygwn heddiw Gymru newydd yn ein pennau, i'w hadeiladu'n well yfory.

Lluniwyd gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni